Coed Lleol
SMALL WOODS WALES



# Sut i wneud Daliwr Haul

**Byddwch angen:**

Papur gwrthsaim neu bapur sidan
Ffon blygadwy neu 3 sgiwer pren
Glud PVA a brwsh paent/taenwr glud/darn o gerdyn
Blodau wedi'u gwasgu a/neu ddail, pin ysgrifennu/pensil
Siswrn
Cotwm, llinyn neu wlân



**Cam 1.**

Casglwch ychydig o flodau neu ddail a'u gwasgu mewn llyfr, mae blodau mwy fflat yn well, neu gallwch bwyso'r petalau yn unig.  Gadewch nhw dros nos neu'n hirach os yn bosib.



**Cam 2.**

Yn y cyfamser, gwnewch y ffrâm, trwy blygu'ch ffon (mae pren Helyg yn dda ar gyfer hyn) a gosod y pennau gyda'i gilydd, gallwch eu clymu â chotwm neu linyn os oes angen. Gosodwch y ffrâm ar ddarn o bapur gwrthsaim neu bapur sidan a thynnwch lun o'i gwmpas, gan ychwanegu ymyl o tua chentimetr.  Yna gludwch o amgylch yr ymylon a'u plygu i'r canol, gan eu glynu lawr. Gadewch i sychu.





**Cam 3.**

Os nad oes gennych ffon blygadwy, trefnwch 3 sgiwer i siâp triongl ar ddarn o bapur gwrthsaim/papur sidan, torrwch o'u cwmpas, gan adael tua cm o amgylch yr ymyl, yna gludwch yr ymylon i lawr dros y sgiwer. Gadewch i sychu.



**Cam 4.**

Nesaf, byddwch angen eich blodau/petalau/dail wedi'u gwasgu, trefnwch nhw i ddyluniad rydych chi'n hapus ag ef ar eich ffrâm.  Glynwch nhw i lawr gyda'ch glud PVA a'ch brwsh paent neu daenwr.  Gadewch i sychu.



**Cam 5.**

Pan fyddant wedi sychu, gallwch chi baentio dros eu pennau gyda'r glud PVA i'w gwneud yn gryfach.



**Cam 6.**

Gwnewch dwll bach ger pen uchaf eich daliwr haul, gwthiwch hyd o gotwm neu wlân trwy'r twll, clymwch gwlwm ynddo a dyna ni - rydych wedi gorffen.

Nawr beth am wneud mwy, a'u hongian yn eich ffenestr sy'n cael y mwyaf o haul. Mae dail y gwanwyn a llygaid y dydd yn gwneud siapiau gwych, ac mae blodau'r haf yn edrych yn hyfryd!

